



CWTSH MYRDDIN

Rhifyn – 25.04.2016

Cerddorfa 6 Sir

Llongyfarchiadau i'r canlynol am ddod yn aelodau o'r gerddorfa 6 Sir: Mali Hughes, Catrin Owen a Lowri Davies o flwyddyn 9, Nia James a Andrea Chang Jones o flwyddyn 10, Beth Jones a Gwion Morgan o flwyddyn 12 a William Prichard o flwyddyn 13eg .

Cystadleuaeth rhedeg SIAB yn ras dan 15 oed (bl 8 a 9)



Cafodd Iwan Glynn o flwyddyn 8 ddiwrnod arbennig yn cystadlu yn yr Alban nôl yn fis Mawrth i SIAB yn ras dan 15 oed. Roedd y lleoliad yn wych gyda'r haul yn gwenu, er fod y cwrs yn un annodd a chyflym iawn. Roedd Iwan yn rhan o dim Cymru er mwyn ennill y fedal arian. Mae Iwan hefyd wedi rhedeg i Gymru yn Llundain ar yr hewl bore'r marathon.

Gymnasteg dros Gymru

Llongyfarchiadau i Sioned Thomas 8-5 am ddod yn 1af yng Nghymru mewn cystadleuaeth gymnasteg yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Da iawn ti.

Cheerleading ym Mharis



Llongyfarchiadau i Taryn Williams 8-5 ddaeth yn gyntaf yn ei chystadleuaeth unigol cheerleading ym Mharis, ac fe wnaeth y fîm cyfan wneud yn dda iawn hefyd.

Adran Gerdd - Ebrill 2016

Cafwyd dechrau prysur a buddiol y tymor hwn i ddisgyblion Cerdd y Chweched dobarth. Ar ddydd Mercher, Ebrill 13eg, bu disgyblion Bl 13 yr Adran yn Ysgol y Frenhines Elisabeth yn gwrandao ar berfformiad o gyfansoddiadau dau ddisgybl ym Mlwyddyn 13 sef Angharad Perkins Thomas a Wiliam Pritchard. Roedd y bore yn ffrwyth cystadleuaeth a drefnwyd gan brosiect Cyfansoddwr Ifanc Dyfed, ac roedd cyfansoddiadau'r disgyblion yn cael eu perfformio yno gan yr ensemble broffesiynol *Red Priest*; profiad hyfryd i Angharad a Wiliam. Cafodd Wiliam brofiad ychwanegol o gael ei ddarn yntau wedi ei berfformio mewn cyngerdd cyhoeddus ym Mhlasdy Rhosygilwen ym Moncath bnawn Sul, Ebrill 17eg.

Cafwyd bore ardderchog yn yr Adran Gerdd hefyd ar fore Iau, Ebrill 14eg yng nghwmni'r pianydd proffesiynol Iwan Llywelyn Jones. Ffocws y bore oedd y gwaith gosod ar gyfer Lefel A sef Concerto yn G Fwyaf gan Maurice Ravel.

Y cyfansoddwr Ffrengig hwn oedd testun doethuriaeth Iwan Llewelyn Jones, ac yn sicr roedd dyfnder ei wybodaeth yn cyfoethogi addysg disgyblion Blwyddyn 13. Er mwyn



ychwanegu ymhellach at eu profiad a'u haddysg, trefnwyd taith i neuadd hyfryd y Barbican yn Llundain nos Iau, Ebrill 21ain i glywed perfformiad byw o'r gwaith arbennig hwn. Roedd hi'n braf cael cwmni disgyblion Chweched dosbarth Ysgol y Preseli ac Ysgol y Strade ar y daith honno.

Braf llongyfarch y disgyblion canlynol ar eu llwyddiant yn cael eu derbyn i Gerddorfa'r Chwech Sir:- William Pritchard, Bronwen Lewis, Sophie McLaughlin, Aled Rosser, Owen Llewellyn Jones, Ffion Richardson, Greta Llyr, Gwenno Accaioli, Beth Jones, Daniel O'Callaghan, Manon Dafydd Jones, Andrea Jones, Nia James, Mali Hughes, Lowri Davies a Catrin Owen. Bydd y cwrs a'r cyngherddau hyn yn brofiad arbennig i'r garfan yma o offerynwyr talentog.



Clwb Garddio Ysgol Bro Myrddin i dyfu hadau o'r gofod!

Mae aelodau o'r Clwb Garddio, yn Ysgol Bro Myrddin yn paratoi i ddod yn fiolegwyr gofod ac yn cychwyn ar daith i ddarganfod hadau sydd wedi bod yn tyfu yn y gofod.

Ym mis Medi, cafodd 2kg o hadau roced ei hedfan i'r Orsaf Ofod Ryngwladol lle byddant yn treulio sawl mis cyn dychwelyd i'r Ddaear yn Mawrth 2016. Mae'r hadau wedi cael eu hanfon fel rhan o Rocket Science, prosiect addysgol a lanswyd gan yr Ymgyrch RHS ar gyfer Garddio Ysgolion ac Asiantaeth Ofod y Deyrnas Unedig.

Bydd Ysgol Bro Myrddin yn un o'r rhai ysgolion i dderbyn pecyn o 100 o hadau o'r gofod, a byddant yn tyfu ochr yn ochr â hadau nad ydynt wedi bod i'r gofod a mesur y gwahaniaethau dros saith wythnos. Ni fydd y disgyblion yn gwybod pa becyn hadau fyff yn cynnwys pa hadau nes bod yr holl ganlyniadau wedi cael eu casglu gan Ymgyrch RHS ar gyfer Garddio Ysgolion a'u dadansoddi gan ystadegwyr proffesiynol.

Bydd y, arbrawf gwyddonol ledled y wlad y tu allan i'r byd hwn-yn galluogi'r disgyblion i feddwl mwy am sut y gallem warchod bywyd dynol ar blaned arall yn y dyfodol pa gofodwyr hangen arnynt i oroesi teithiau hir-dymor yn y gofod, a'r anawsterau o amgylch tyfu bwyd ffres mewn hinsoddau heriol.

Dywed Miss Lisa James, athrawes Cemeg, "Rydym yn gyffrous iawn i fod yn cymryd rhan mewn Rocket Science. Mae'r arbrawf yn ffordd wych o ddysgu ein

myfyrwyr i feddwl yn fwy gwyddonol a rhannu eu canfyddiadau gyda'r ysgol gyfan. Edrychwn ymlaen i glywed mwy o hanes yr arbrawf yn y dyfodol agos.

Marc Ansawdd Gyrfa Cymru

Llongyfarchiadau mawr i Ysgol Bro Myrddin am dderbyn Marc Ansawdd Gyrfa Cymru. Yr ysgol bellach yw'r un gyntaf yn yr ardal i gael ei ail-achredu gyda'r Wobr. Mae'r wobwr yn arwydd clir o welliant parhaol yr ysgol yn maes Addysg Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith a gweler yma Mr Gareth Jones, Cydlynnydd Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith yr ysgol, yn derbyn y wobwr oddi wrth Emma Bengler, Cydlynnydd Rhanbarthol Gyrfa Cymru.



Noson Wobrwyo Ysgol Bro Myrddin

Ar Nos Fercher, 23ain o Fawrth 2016 cynhaliwyd noson wobrwyo flynyddol Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin. Y siaradwr gwadd oedd Dr Mererid Hopwood, bardd o fri ac yn un o awduron mwyaf poblogaidd a hynod ei pharch yng Nghymru. Diolch iddi am ei araith ddifyr iawn a phwrpasol. Cafwyd eitemau cerddorol gan fand yr Ysgol sef Trioleg John William; trefniant John Moss dan arweiniad Mrs Jaquie Scaife. Cafwyd dwy gân gan y Côr cymysg hŷn sef "Un Enaid Bach" (Robart Arwyn) a Rhythm y Ddawns (Cy Coleman) o dan Arweiniad Mrs Meinir Richards a Ms Nia Evans ac Elin Jones o flwyddyn 12 yn cyfeillio. Cawsom eitem Pedwarawd Llinynnol gan Gwenno Acciaoli, Manon Dafydd Jones, Beth Jones a Rosa Bruce.



Braf oedd gweld disgyblion presennol yr ysgol, cyd ddisgyblion a'u rhieni'n bresennol. Croesawyd pawb gan y prif fachgen Aled Rosser a gwnaethpwyd y diolchiadau i gloi gan Lowri Luxton, y brif ferch. Anerchwyd y gynulleidfa hefyd gan y pennaeth Dr Llinos Jones a dosbarthwyd y gwobrwyon gan Mrs Mererid Hopwood a'r pennaeth. Darparwyd lluniaeth i bawb ar ddiwedd y noson - diolch i Mrs Non Knott a'i thîm o gynorthwyr a fu'n paratoi a gweini'r arlwy. Llongyfarchiadau gwresog i'r holl ddisgyblion ar eu llwyddiannau ac eto eleni i'r noddwyr a gyfrannodd tuag at y gwobrau. Diolch yn fawr i bawb.

Enillwyr Gwobrau

Gwobr Ysgol Bro Myrddin	<i>Natalia Quirós Edmunds, Niamh Elain</i>
Gwobr Goffa Beti Hughes	<i>Angus Bruce ; James Jones</i>
Tlws Gareth Evans (Blwyddyn 13)	<i>Siwan Dafydd</i>
Tlws Gareth Evans (Blwyddyn 11)	<i>Lucy Thomas</i>

Gwobr St Peter's Players	<i>Aled Owen</i>
Tlws Coffa Megan a Myfanwy	<i>Carys Price</i>
Tlws Coffa Rhian Denby Jones	<i>Phoebe Jones</i>
Tlws yr Adran Fusnes	<i>Rhys Williams</i>
Tlws Andrew Rees	<i>Nia Emanuel</i>
Tlws yr Adran Gerdd	<i>Aled Rosser</i>
Tlws Hugh Griffiths	<i>Siwan Mai Jones</i>
Tlws Margaret Morris	<i>Sioned Beynon ; Ifan Gwynedd</i>
Tlws Addysg Gorfforol	<i>Erin Walters</i>
Tlws Elin Ruth Jenkins	<i>Fflur Jones</i>
Tlws Non Jenkins	<i>Hannah Davies</i>
Tlws Peter Hughes Griffiths	<i>Ryan Skinner</i>
Tlws Rhys Schiavone	<i>Aron Hughes</i>
Tlws Rheon ac Eiliw James	<i>Erin Walters; Ffion Walters</i>